# Adroddiad i'r Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 18-08 (p2) : 19 Mehefin 2008**

## Tystiolaeth o Goleg Menai

### 1. Pwrpas

Mae Coleg Menai yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ac i gyfeirio'n benodol at waith y coleg a'i gefnogaeth i'r economi leol wrth wynebu her yr agenda sgiliau. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cyflwyno cyd-destun y coleg yn gryno, ein perthynas â'n partneriaid yn wyneb anghenion rhanbarthol ac economaidd a rhai meddyliau a allai ddylanwadu ar drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor. Nid oes bwriad yn y papur hwn i ailadrodd na dyblygu'r pwyntiau a wnaed eisoes gan fforwm a cholegau AB (Addysg Bellach) eraill.

### 2. Coleg Menai

Sefydlwyd Coleg Menai yn 1994 yn sgil uno dau goleg ac mae'n sefydliad aml-safle yn gwasanaethu cymunedau gogledd orllewin Cymru. Gyda dros 8,400 o gofrestradau yn 2007/08 (data Mai), mae'n cwmpasu'r holl ddarpariaeth alwedigaethol a ddarperir gan goleg Addysg Bellach cyffredinol. Mae gan y sefydliad hefyd ddarpariaeth eang seiliedig ar waith, canolfannau oedolion a chymunedol, cyrsiau mynediad a chyrsiau i fyfyrwyr rhyngwladol a darpariaeth ryddfraint addysg uwch yn ogystal â chyrsiau galwedigaethol ar gyfer disgyblion ysgol 14-16.  Datganiad Cenhadaeth y coleg – Mae Coleg Menai yn cefnogi lles cymdeithasol a ffyniant economaidd ei gymunedau trwy ddarparu cyfleoedd dysgu i unigolion – yw sylfaen ein holl waith ac yn cydbwyso'r rôl gymdeithasol gyda'r cyrsiau ar gyfer diwydiant a masnach.

Mae trosiant blynyddol y coleg yn tynnu am £19 miliwn ac ar hyn o bryd yn cyflogi dros 500 o staff. Mae'r coleg bob amser wedi cynnal y safonau uchaf o ran statws ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru, cydymffurfiaeth ac archwilio a Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae gan Addysg Bellach sawl mantais dros broffiliau eraill yn yr ystyr ei fod yn gallu cyfuno gwahanol ffrydiau cyllido (ee Ewropeaidd, Dysgu seiliedig ar waith, Addysg Bellach, Addysg Uwch ayb) er mwyn bodloni anghenion sgiliau cyflogwyr, a thrwy hynny ddarparu gwasanaeth di-dor.

Mae gan y coleg bump o werthoedd craidd - rhagoriaeth, arloesedd, parch, proffesiynoldeb a gwaith tîm - a datblygir y rhain i gefnogi pob dysgwr a staff. Mae'r gwerthoedd hyn wedi galluogi'r coleg i ganolbwyntio ar ei waith craidd a datblygu systemau ansawdd soffistigedig sydd wedi symud y coleg ymlaen o dda i ragorol. O ganlyniad, mae gan Goleg Menai un o'r proffiliau graddau Estyn gorau am ei waith Addysg Bellach, enillodd brif Wobr Ansawdd Cymru yn 2006, Gwobr Beacon Llywodraeth Cynulliad Cymru am Ymgysylltu â Chyflogwyr yn 2007, a chafwyd arolygiad Estyn yn ddiweddar ar y Ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith.  Cyhoeddir y canlyniadau yn ystod y pedair wythnos nesaf.

Mae buddsoddiad Coleg Menai mewn rhaglenni cyfalaf wedi bod yn nodedig a gwnaed defnydd effeithiol o wahanol ffynonellau cyllido gan fuddsoddi dros £20 miliwn yn ystâd y coleg. Mae'r coleg ar hyn o bryd yn codi canolfan Crefft Adeiladu newydd, a fydd yn gwella adnoddau, yn cwrdd ag anghenion cynyddol cyflogwyr lleol ac yn galluogi'r coleg i ymateb i ddadgomisiynu niwclear a datblygiadau yn y sector ynni. Cafwyd buddsoddiadau eraill yn cynnwys uwchraddio'r cyfleusterau peirianneg, canolfan gofal cymdeithasol newydd, canolfannau cymunedol yng Nghaernarfon a Chaergybi, cydymffurfio â deddfwriaeth Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gwelliannau i gyfleusterau mewn sawl maes galwedigaethol arall.

### 3. Y cyd-destun Economaidd a Chymdeithasol

Mae i'r ardal ddaearyddol a wasanaetha'r coleg gyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus – iechyd, llywodraeth leol, addysg ac amrediad o gyflogwyr preifat yn y sectorau canlynol: ynni, fferyllol, puro metel, chwareli, peirianneg a saernïo, hamdden a thwristiaeth, adwerthu, gofal a phrosesu bwyd. Mentrau Bach a Chanolig (SME) yw amryw o'r cwmnïau hyn ac mae cefnogaeth y coleg o ran hyfforddiant yn allweddol i'w llwyddiant a'u datblygiad.

Mae i'r dalgylch hefyd rai ardaloedd difreintiedig, gyda deg o wardiau cymunedau'n gyntaf ym Môn a gogledd Gwynedd. Yma eto, mae'r coleg yn gweithio'n uniongyrchol gydag asiantaethau a rhwydweithiau er mwyn sicrhau bod mynediad at addysg a hyfforddiant ar gael ledled yr ardal.

### 4. Cysylltiadau â chyflogwyr

Mae cysylltiadau'r coleg â chyflogwyr yng ngogledd orllewin Cymru wedi datblygu dros y degawd diwethaf ac erbyn hyn yn cynnwys amrediad o wasanaethau sy'n gwneud y sefydliad yn unigryw ac arloesol. Nodir y prif bwyntiau yn gryno yn yr adran hon.

4.1 Sylfaen ein gwaith gyda chyflogwyr yw Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL). Mae hyn yn galluogi'r coleg a'i dîm o staff cymwysedig ac ymroddedig i adnabod anghenion a chyflwyno hyfforddiant mewn modd hyblyg – yn y coleg a/neu yn y gweithle. Rydym hefyd yn is-gontractio'r hyfforddiant yn uniongyrchol i gyflogwyr, ee y gadetiaeth nyrsio a gyflwynir gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru. Ar hyn o bryd mae 248 o gyflogwyr yn ymwneud â'r ddarpariaeth WBL. Er hynny, nid yw'r coleg yn bodloni'r angen cyfredol gan gyflogwyr a gellid ychwanegu 70% at y contract hyfforddiant presennol o £1.2 miliwn er mwyn ateb y galw.

4.2 Mae cyflogwyr hefyd yn elwa ar ein cyrsiau Addysg Bellach er mwyn gwella sgiliau eu gweithwyr. Ar hyn o bryd mae 4269 (50.26%) o fyfyrwyr Coleg Menai mewn cyflogaeth, gyda 1472 (17.33%) o'r rhain wedi'u noddi gan gyflogwr a 520 ymhellach ar raglenni

prentisiaeth. Mae'r myfyrwyr Addysg Bellach sydd mewn cyflogaeth yn dilyn darpariaeth rhyddhad undydd, Addysg Uwch, NVQ a chyrsiau diwydiannol ardystiedig.

4.3 Ar hyn o bryd mae gan y coleg 420 o fyfyrwyr ar raglenni Addysg Uwch a gyflwynir trwy drefniant rhyddfraint â Phrifysgol Bangor, Athrofa Addysg Gogledd Ddwyrain Cymru a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Mae'r coleg, ers sawl blwyddyn, wedi cyflwyno rhaglenni gyda Phrifysgol Morgannwg ac wedi gwerthfawrogi eu rôl arloesol wrth ddatblygu trefniant rhyddfraint Cymru-gyfan ar gyfer y sector Addysg Bellach. Rai blynyddoedd yn ôl, gyda chytundeb pob partner, datblygodd y coleg ei ddarpariaeth gyda'r ddau sefydliad Addysg Uwch yn rhanbarth y gogledd, sy'n gweithio'n effeithiol iawn ac yn bodloni anghenion cyflogwyr.

Eisoes datblygwyd graddau sylfaen ac mae gan y coleg uchelgais i ddatblygu mwy mewn partneriaeth â chyflogwyr. Ceir atodiad ynghlwm yn rhestru'r ddarpariaeth Addysg Uwch gyfredol a datblygiad y cwricwlwm i'r dyfodol. Mae'r coleg yn cefnogi safbwynt fforwm ar bwerau dyfarnu graddau i sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru ac yn cydnabod yr angen am ddeialog ystyrlon er mwyn cael eglurder ynghylch cyllido, y mathau o ddatblygiadau a sicrhau fod yna beth cynllunio rhanbarthol er mwyn osgoi dyblygu diangen.

4.4 Mae rhwydweithio yn elfen bwysig o'r wybodaeth mae'r coleg yn ei chasglu er mwyn sicrhau bod ei raglenni'n berthnasol i anghenion presennol cyflogwyr, ac i'r dyfodol. Gwneir rhan o'r gwaith hwn gan y dwsin o staff sy'n ymweld ac yn gweithio gyda chyflogwyr yn lleol. Mae rhai rhwydweithiau ffurfiol yn cyfarfod yn rheolaidd yn y coleg, ee Grwp Adeiladu Gwynedd, ac mae rheolwyr perthnasol yn mynychu rhai eraill. Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector yn chwarae rhan gynyddol bwysig yma ac mae Coleg Menai yn ymwneud ag 14 o'r Cynghorau hyn ar hyn o bryd. Mae rhai o'r cynghorau hyn yn abl i gyfleu'r newid yn y galw am hyfforddiant gan gyflogwyr ac yn galluogi'r coleg i baratoi a buddsoddi yn yr adnoddau angenrheidiol ymlaen llaw. Mae hyn, fodd bynnag, yn tueddu i ganolbwyntio ar anghenion y cyflogwyr mwyaf. Mae bodloni anghenion Mentrau Bach a Chanolig yn her wahanol a gall annog cyflogwyr i fynychu sesiynau diweddaru i gydymffurfio â deddfwriaeth neu gyflwyno meddalwedd neu offer newydd fod yn gyfle defnyddiol i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant. Bydd cwmnïau nad ydynt yn hyfforddi eu staff yn gyson a diweddaru eu sgiliau yn cael eu gadael ar ôl ac allan o fusnes yn y pen draw, ac nid yw'r coleg am fod yn gysylltiedig â sefydliadau o'r fath. Rhaid defnyddio arian cyhoeddus mewn modd sy'n cael yr effaith orau ar gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad economaidd.

4.5 Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn yr economi leol, mae'r coleg yn ceisio nawdd cyflogwyr ar gyfer pob un o'n 20 o gyrsiau Diploma Cenedlaethol ar lefel 3. Mae hyn eisoes wedi'i dreialu'n llwyddiannus gydag un cwmni (Watkin Jones Construction) ac yn flynyddol mae 6 myfyriwr yn ymgeisio am ysgoloriaeth sy'n darparu arian ychwanegol os ydynt yn mynychu ac yn llwyddiannus yn eu tasgau a hefyd yn galluogi'r myfyriwr i weithio gyda'r cwmni yn ystod eu gwyliau gan ennill arian ychwanegol. Bob blwyddyn, mae'r cwmni'n recriwtio hanner y rhai ar yr ysgoloriaeth ar ddiwedd eu cwrs ac yn cynnig hyfforddiant pellach ar lefel HND mewn partneriaeth â'r coleg. Yn sgil y treialu llwyddiannus hwn rydym bellach yn bwriadu cyflwyno'r cynllun hwn ar draws y coleg ar lefel Diploma Cenedlaethol.

4.6 Datblygiad arall fu darparu cwrs peirianneg arbenigol ar gyfer pobl ifanc (12) mewn partneriaeth â Babcock, contractwr yn gweithio yn RAF Y Fali. Mae'r cwmni hwn yn gweld gwerth hyfforddi a recriwtio'n lleol ac wedi gweithio gyda'r coleg gan ddatblygu'r ddarpariaeth hon o fewn y rhaglen brentisiaeth. Bydd y broses hon yn parhau yn flynyddol ar gyfer carfan lawn o 36, gan sicrhau fod gan y cyflogwr hwn staff ymroddedig, sy'n cael eu gwerthfawrogi.

4.7 Gyda rhai cyflogwyr rydym wedi datblygu canolfannau hyfforddi yn eu gweithleoedd er mwyn sicrhau mynediad rhwydd a hwylus i'w staff. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys canolfannau gyda Chynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, Magnox North (Wylfa), Sain ac Alwminiwm Môn.

Er i hyn fod gyda'r sector cyhoeddus yn bennaf i ddechrau o safbwynt niferoedd gweithwyr, mae cyfleoedd i ddatblygu canolfannau arbenigol pellach mewn partneriaeth â chyflogwyr ac mae'r coleg ar hyn o bryd mewn trafodaeth ynghylch dau ddatblygiad o'r fath.

4.8 Datblygiadau sydd wedi gwneud perthynas Coleg Menai gyda cyflogwyr yn hollol unigryw yw'r Ganolfan Technoleg Bwyd ar safle Llangefni a Chanolfan Arloesi Menai (CAM) ym Mangor. Mae'r naill yn darparu hyfforddiant, cyfleusterau, gwasanaethau ac ymgynghoriaeth i gwmnïau ac entrepreneuriaid presennol a busnesau sy'n sefydlu o'r newydd yn y sector prosesu bwyd, a'r llall wedi galluogi cwmnïau a rhai sy'n cychwyn eu mentrau, i ddylunio a chynhyrchu prototeipiau gan ddefnyddio meddalwedd peirianneg ac adnoddau modern. Mae dros 50 o gwmnïau wedi defnyddio gwasanaethau CAM dros y 2 flynedd ddiwethaf. Ymatebodd y Ganolfan Technoleg Bwyd i184 o ymholiadau technegol yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, cwblhawyd 42 o brosiectau ar gyfer 27 o wahanol gwmnïau ac mae hyn wedi arwain at greu 16 o swyddi newydd, gan ddiogelu 81 o swyddi pellach. Mae'r ddwy ganolfan hon yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol, ac er eu bod ar hyn o bryd yn ganolfannau cost o fewn y coleg, mae'r ddau reolwr yn gyfrifol am gyflwyno cynllun busnes i Fwrdd mewnol o uwch reolwyr.

## 5. Strategaeth a Gwerthoedd Rheoli

5.1 Ni all y gwahanol weithgareddau a ddisgrifir ym mharagraffau 4 uchod ddigwydd heb strategaeth, strwythurau ac eglurder pwrpas. Cytunodd y Gorfforaeth ar strategaeth cyflogwr mwyaf diweddar Coleg Menai mewn cynhadledd arbennig yn Ionawr 2006 i drafod ymateb y coleg i sefyllfa economaidd fregus gogledd Môn. Mae'r strategaeth yn cael ei chyflwyno gan dîm o staff ymroddedig dan arweiniad un o'r uwch reolwyr – Cyfarwyddwr y Gyfadran Gwasanaethau i Fusnes. Mae holl ddull y coleg o weithio yn dibynnu ar fod yn arloesol ac ymatebol ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy sawl cynllun, wedi cefnogi'r amryw o brosiectau a ddatblygwyd. Mae'r Gorfforaeth yn derbyn adborth ar ddatblygiadau a'r aelodau busnes yn rhoi cymorth a chyngor gwerthfawr.

5.2 Un cynllun pwysig yn ystod y blynyddoedd diweddar fu buddsoddi mewn adnoddau ar gyfer cyflwyno modiwlau menter yn rhan o gwricwlwm amser llawn y coleg. Bob blwyddyn, mae nifer fach o fyfyrwyr yn gadael y coleg i gychwyn eu busnesau eu hunain, gan dderbyn cyngor a chefnogaeth yn y broses. I'r mwyafrif o'r myfyrwyr, fodd bynnag, mae'r modiwlau menter yn gosod sylfeini ar gyfer datblygiadau a chyfleoedd yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae siaradwyr Dynamo (h.y. pobl fusnes â record lwyddiannus) wedi

chwarae rhan bwysig yn y datblygiad hwn.

## 6. Partneriaeth ar Waith

6.1 Mae partneriaethau'n hanfodol er mwyn bodloni anghenion sgiliau cyflogwyr. Yn aml iawn mae hyn yn golygu'r gefnogaeth a roddir i brentis ifanc gan gyflogwr, gan yr asesydd colegol a chan y rhiant/gwarcheidwad. Y math yma o berthynas o fewn rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith yw sylfaen yr holl wasanaethau eraill a ddarperir gan y coleg ac sy'n galluogi prosiectau a chynlluniau eraill i ddilyn. Mae Addysg Bellach, felly, mewn sefyllfa unigryw i gyflenwi amrediad o wasanaethau i gyflogwyr, ac eto rhaid i ni gystadlu â darparwyr hyfforddiant eraill a ariennir yn gyhoeddus. Rydym yng Ngholeg Menai wedi ceisio sefydlu memoranda o gytundeb gyda darparwyr lleol eraill ond mae angen ateb mwy radical er mwyn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus, er mwyn i ansawdd gael ei wobrwyo a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael eu cyflenwi.

6.2 Mae perthynas Coleg Menai â Phrifysgol Bangor yn golygu llawer mwy na threfniadau rhyddfraint ar gyfer darpariaeth Addysg Uwch. Gellir cyfeirio at sawl enghraifft o gydweithredu agos. Mae'r rhain yn cynnwys cyd-farchnata gwaith rhyngwladol, cymorth gyda gwaith Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP), rhannu cynlluniau strategol, ymchwilio i opsiynau rhannu gwasanaethau, cynghori ac ymgynghori ar gynlluniau, cymorth gydag ymchwil cymhwysol mewn prosesu bwyd, prosiectau megis Ymestyn yn Uwch - Ymestyn yn Ehangach, a pheth rhesymoli darpariaeth cyrsiau. Anogir y cydweithredu hwn trwy ddeialog reolaidd ar lefel uwch reolaeth.

6.3 Mae'r coleg hefyd yn gweithio gyda'r ddau awdurdod lleol (Gwynedd ac Ynys Môn) a'r ysgolion uwchradd i ddarparu profiadau galwedigaethol ar gyfer dros 350 o ddysgwyr 14-16 oed. Er mwyn sicrhau cydweithredu llawer mwy effeithiol yn yr agwedd hon mae'r coleg wedi gwahodd dirprwy brifathro ysgol leol i weithio ar secondiad blwyddyn yn y coleg er mwyn rheoli'r bartneriaeth a datblygu darpariaeth berthnasol i'r economi leol, o Fedi 2009 ymlaen. Mae'r coleg yn ariannu'r trefniant hwn am gyfnod o flwyddyn yn unig ac mae angen gwelliannau sylweddol er mwyn i'r partneriaethau hyn weithredu'n effeithiol.

6.4 Mae gan y Cynghorau Sgiliau Sector rôl bwysig o ran lleisio barn ac anghenion cyflogwyr i ddarparwyr megis colegau Addysg Bellach. Bydd y broses hon yn cymryd amser i ddatblygu mewn rhai sectorau am wahanol resymau. Mae angen pwyso a mesur effaith cynigion Sgiliau i Gymru i symud cyfrifoldeb ariannu i'r Cynghorau Sgiliau Sector, yn erbyn eu record a'u gallu i ddiwallu anghenion Mentrau Bach a Chanolig ym mhob sector.

6.5 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hwylusydd allweddol yn y mwyafrif o'r cysylltiadau hyn. Mae Coleg Menai yn croesawu cynllun Môn a Menai a'r arian a glustnodwyd, yn enwedig y £300k ar gyfer hyfforddiant. Mae buddsoddiad mewn rhaglenni cyfalaf wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r arian prosiect wedi galluogi'r coleg i ddatblygu gwasanaethau newydd. Mae'r coleg yn gosod cryn bwys ar gyflawni targedau rhaglen o fewn amserlenni cytunedig. Mae record o'r fath yn fantais sylweddol wrth ymgeisio am gyllid newydd ar gyfer datblygiadau pellach.

## 7. Dewisiadau Gwleidyddol ac Argymhellion

7.1 Un o nodweddion pwysig Coleg Menai yw ymroddiad i ansawdd a chost-effeithiolrwydd yn ei holl weithgareddau. Y ddau baramedr hwn sydd, i raddau helaeth, yn pennu'r hyn rydym yn ei wneud a'r hyn nad ydym yn ei wneud. Mae'r ddwy elfen hon yn galw am fas critigol er mwyn gweithio'n effeithiol ac mae'r coleg wedi cyflwyno'i safbwyntiau i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru ac Adolygiad Webb. Byddem am i'r ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn glir ac ad-drefnu i'w weithredu'n gyson ledled Cymru, o fewn ffrâm amser. Nid yw ymdrechion i sicrhau ad-drefnu lleol yn y blynyddoedd diweddar, ee Braenaru Daearyddol wedi gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a bach fu'r newidiadau.

7.2 Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi sefydliadau effeithiol ac ymatebol, ac eto, rhaid iddynt ymdrin â myrdd o gynlluniau a darparwyr sy'n cystadlu. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru bennu ei blaenoriaethau cyllido a gwobrwyo ansawdd a sefydliadau sydd â record y gyflenwi.

7.3 Mae colegau'n wynebu galwadau cynyddol gan gyflogwyr, ac eto 1.45% yw'r cynnydd cyffredinol yng nghyllideb y sector ar gyfer y flwyddyn nesaf, nid yw'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith yn ateb y galw ac mae cofrestradau ôl-19 wedi'u capio ar y lefelau presennol. Er gwaethaf lefel yr ymyriadau i gefnogi hyfforddiant a datblygiad economaidd, nid yw Coleg Menai yn bodloni anghenion sgiliau yr economi leol. Gallai cyllido cyfeiriedig ddatrys y materion hyn.

7.4 Mae Coleg Menai yn cefnogi'r pwerau a roddir i golegau Addysg Bellach i ddyfarnu graddau ac mae angen gweithio i sicrhau parhad y cysylltiadau effeithiol rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae angen cytundebau lleol er mwyn osgoi ail ddyfeisio olwynion a byddai sefydlu gweithgorau i ddatrys materion ymarferol gan gynnwys cyllido, yn ffordd o sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau ac isafu cystadleuaeth ddiangen.

## Sylwadau i Gloi

Ni fyddai llwyddiant Coleg Menai o ran datblygu economaidd a chyfarfod anghenion sgiliau wedi digwydd heb strategaeth, buddsoddi mewn adnoddau, gweithio mewn partneriaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae rhai o'r enghreifftiau a drafodir yn fyr yn y papur hwn yn rhai blaenllaw ac arloesol a byddai'r coleg yn dymuno datblygu'r rhain yn y dyfodol er mwyn creu gwaith, sicrhau swyddi a darparu cyfleoedd gwaith yn yr economi leol ar gyfer ein holl gymunedau. Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu'r cyfeiriad polisi ac adnoddau os yw Cymru i gystadlu yn yr economi fyd-eang newydd. Cysylltu addysg, hyfforddiant, ymchwil, menter a'r economi yw'r unig ffordd ymlaen.

**Dr Haydn E Edwards**
**Pennaeth a Phrif Weithredwr**

**Coleg Menai**

## Atodiad
## Rhestr o Ddarpariaeth Addysg Uwch Coleg Menai

### HNC

Astudiaethau Adeiladu
Peirianneg Sifil
Peirianneg Trydan/Electronig
Peirianneg Cynhyrchu/Mecanyddol
Rheolaeth Lletygarwch
Gweinyddu Busnes
Technoleg Gwybodaeth

### HND

Technoleg Gwybodaeth}
Gwyddor Chwaraeon
Astudiaethau Busnes
Gradd Sylfaen
Astudiaethau Adeiladu
Celf a Dylunio
Cefnogi Dysgu (o Fedi 2008)
Gradd Anrhydedd
Celfyddyd Gain
Dylunio Graffig
Ôl-radd
TAR/PCET

### Nodiadau

1. Cyflwynir pob rhaglen Addysg Uwch arall (ee cyrsiau proffesiynol ac NVQ) heb fod drwy berthynas ryddfraint.

2. Ymchwilir i bosibiliadau Gradd Sylfaen yn 2008-09: Gwasanaethau Adeiladu /Peirianneg Fodurol / Dadgomisiynu Niwclear / Gofal yr Henoed/ Gwyddor Fforensig / Rheolaeth Iechyd.